# Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru Drafft 2021–2027

# Penderfyniad ar Sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

## Cynnwys

1. Cyflwyniad i Asesiadau Amgylcheddol Strategol ................................................ 6
2. Cefndir i Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru ................................... 6
2.1. Asesiadau Amgylcheddol Strategol o Gynlluniau Rheoli Basn Afon .............. 10
3. Sgrinio’r Asesiad Amgylcheddol Strategol ........................................................ 10
4. Penderfynu pa mor sylweddol mae effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod 13
4.1. Nodweddion y Cynllun Rheoli Basn Afon ....................................................... 13
4.2. Casgliad ......................................................................................................... 6
5. Cyfeiriadau ......................................................................................................... 7

## Tablau

Tabl 1. Pa mor sylweddol y mae effeithiau'r Cynllun Rheoli Basn Afon, yn ei gyfanrwydd, ar yr amgylchedd yn debygol o fod. ..................................................... 14

## Ffigurau

Ffigur 1. Diagram cynllunio sy'n dangos y cyfnodau amser a gwmpesir gan bob cylch rheoli basn afon. .......... 7
Ffigur 2. Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru .......... 9

## Deunydd atodol

Atodiad 1. Cymhariaeth o fesurau Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch â mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch ar ffurf ddrafft........................................... 9
Atodiad 2. Ystyriaeth o addasiadau a pha mor sylweddol y mae eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod........................................................................... 20

## Acronymau

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| AA | Asesiad priodol |
| AMP | Cynllun Rheoli Asedau |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| EQSD | Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol |
| ER | Adroddiad amgylcheddol |
| FRM | Rheoli perygl llifogydd |
| FRMS | Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| INNS | Rhywogaethau estron goresgynnol |
| NEP | Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| OGN | Nodyn cyfarwyddyd gweithredol |
| PoM | Rhaglen o fesurau |
| RBD | Ardal basn afon |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SWMI | Materion rheoli dŵr sylweddol |
| SMNR | Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| WFD | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| WWRBMP | Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru |

# 1. Cyflwyniad i Asesiadau Amgylcheddol Strategol

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cyfrifol am Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, felly mae'n rhaid i ni benderfynu a yw'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (OS 1656/04). Mae'r broses sgrinio hon yn ystyried cylchoedd blaenorol y Cynllun Rheoli Basn Afon a'u hasesiadau amgylcheddol, faint o newid a fu rhwng y cylchoedd, a'u heffeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd ehangach.

Bydd y ddogfen hon yn llunio'n penderfyniad ynglŷn ag a ydym yn bwriadu cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol statudol o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, a'n rhesymeg y tu ôl iddo. Byddwn yn ymgynghori ag ymgyngoreion statudol perthnasol ar y gwaith o'i pharatoi a'i chasgliadau, a chaiff ei chyhoeddi ochr yn ochr â ffurf ddrafft Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru.

# 2. Cefndir i Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn dilyn dull cyfannol o reoli ein dyfroedd, gan ystyried y dŵr yng nghyd-destun yr ecosystem ehangach, a symudiad dŵr trwy'r cylch hydrolegol o'i darddiad i'r môr. Diben Cynlluniau Rheoli Basn Afon yw diogelu'r amgylchedd dŵr a'i wella er budd ehangach pobl a bywyd gwyllt.

Cafodd cylch cyntaf Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru ei gyhoeddi yn 2009 a sefydlodd y fframwaith ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr o 2009 hyd 2015. Roedd rhai o'r ymrwymiadau'n ymestyn hyd 2021 a/neu 2027 a chafodd y rhain eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch, a gyhoeddwyd yn 2015. Mae'r trydydd cylch, unwaith eto, yn adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion a, lle bo angen, yn diwygio'r amcanion a'r rhaglen o fesurau cysylltiedig y disgwylir eu cyflawni rhwng 2021 a 2027. Ceir amlinelliad o dri chylch y

Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn




Ffigur 1.




**Ffigur 1. Diagram cynllunio sy'n dangos y cyfnodau amser a gwmpesir gan bob cylch rheoli basn afon.**

Llunnir hwn, Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliadau’r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod priodol ar gyfer ardaloedd basn afon sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn gyfan gwbl, a'r rhannau o ardaloedd basn afon trawsffiniol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, wedi darparu arweiniad ar ffurf ddrafft i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru â'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.


Ers cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Basn Afon yr ail gylch, mae deddfwriaeth newydd yng Nghymru wedi gosod mwy o bwyslais ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a phwysigrwydd hyn wrth sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni reoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru er mwyn darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy a hirdymor. Mae hyn yn sefydlu dull sy'n seiliedig ar ardal er mwyn cynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd mwy cydgysylltiedig i wella gwydnwch ecosystemau a gallu ein hecosystemau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn

yn golygu alinio amcanion Cynlluniau Rheoli Basn Afon â Datganiadau Ardal, sy'n amlinellu blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel ranbarthol yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cynnwys crynodeb o'r canlynol:

- Dosbarthiad mwyaf diweddar cyrff dŵr. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall cyflwr presennol y cyrff dŵr, gan gynnwys yr holl elfennau ansawdd. Mae atal dirywiad o'r sefyllfa sylfaenol hon yn un o amcanion allweddol y cynllun hwn, ac mae hefyd yn un o'r heriau mwyaf sylweddol rydym yn ei hwynebu wrth ddiogelu'r amgylchedd dŵr.
- Y rhaglen o fesurau arfaethedig angenrheidiol ar gyfer cyflawni amcanion Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ar gyfer ardaloedd gwarchodedig tuag at gyflawni eu hamcanion statudol. Mae'r rhaglen yn amlinellu'r camau i'w cymryd dros y cylch cynllunio nesaf ar gyfer 2021–2027, gan ganolbwyntio ar weithio ar y cyd a darparu buddion lluosog ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.
- Yr amcanion amgylcheddol arfaethedig a bennir ar gyfer pob elfen ansawdd ym mhob corff dŵr, gan gynnwys amcan ar gyfer y corff dŵr yn ei gyfanrwydd. Yr amcan arferol oedd anelu at gyflawni statws neu botensial da erbyn 2015. Mewn rhai achosion, rydym wedi ymestyn y dyddiad cau i 2027, neu'r tu hwnt, lle gellir cyfiawnhau hyn ar sail amodau naturiol neu annichonolrwydd technegol ar gyfer nifer fach o gemegion, neu rydym wedi pennu amcan sy'n llai na da lle bo'n bosibl cyfiawnhau hyn ar sail annichonolrwydd technegol neu gost anghymesur.

Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn cwmpasu 16,653 cilometr sgwâr ac mae'n cwmpasu hanner gorllewinol Cymru yn ei gyfanrwydd, o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn y gogledd. Mae Ffigur 2 yn dangos yr ardaloedd basn afon ac ardal yr astudiaeth ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru.




**Ffigur 2. Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru**

## 2.1. Asesiadau Amgylcheddol Strategol o Gynlluniau Rheoli Basn Afon

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynllun Rheoli Basn Afon y cylch cyntaf er mwyn asesu effeithiau amgylcheddol ehangach y rhaglen o fesurau (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, 2009). Mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob chwe blynedd, ac felly cyhoeddwyd yr ail gylch yn 2015 ac adolygodd yr amcanion a'r rhaglen o fesurau o 2015 hyd 2021. Unwaith eto, cafodd Asesiad Amgylcheddol Strategol ei gynnal er mwyn sicrhau y gallwn nodi lle gallai ein cynigion ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr ddwyn canlyniadau bwriadol neu anfwriadol i bobl neu'r amgylchedd ehangach (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015).

Ar gyfer adolygiad y trydydd cylch hwn o ffurf ddrafft Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru, gwnaethom astudio Asesiad Amgylcheddol Strategol yr ail gylch er mwyn penderfynu a oedd yr effeithiau a ragolygwyd wedi digwydd, ac i lywio ein gwaith sgrinio ac unrhyw asesiadau o Gynlluniau Rheoli Basn Afon y trydydd cylch (Natural Resources Wales, 2020). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad na chofnodwyd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol anrhagweledig wrth weithredu'r ail gylch, bod yr asesiad ei hun yn un rhagofalus, a bod graddfa'r newid cadarnhaol yn rhy optimistaidd. Mae hyn wedi llywio'n gwaith sgrinio ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynlluniau'r trydydd cylch.

# 3. Sgrinio’r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (OS 1656/04), y cyfeirir atynt yn aml fel y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, yn amlinellu meini prawf a beirniadaethau sydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynglŷn â sgrinio. Mae'r cwestiynau isod yn alinio â'r rheoliadau.

1. **A yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn amodol ar gael ei baratoi a/neu ei fabwysiadu gan awdurdod cenedlaethol, rhanbarthol neu leol NEU a yw’n cael ei baratoi gan awdurdod ar gyfer ei fabwysiadu drwy weithdrefn ddeddfwriaethol gan senedd neu'r llywodraeth?**

   Ydy, mae Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn amodol ar gael ei baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru fel yr awdurdod priodol o dan Reoliadau’r Amgylchedd Dŵr (Y

Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae'r ddau hyn yn awdurdodau cenedlaethol yng Nghymru.

2. **A yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoliadol neu weinyddol?**

   Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn ofyniad deddfwriaethol o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (Offeryn Statudol 407).

3. **A) A yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch wedi'i baratoi ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, telathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref, neu ddefnydd tir?**

   Ydy, amcan Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar gyfer yr amgylchedd dŵr.

   **B) A yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn pennu fframwaith ar gyfer rhoi caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol fel a amlinellir yn Atodiadau 1 a 2 Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol?**

   Ydy, *efallai* y bydd Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn pennu fframwaith ar gyfer rhoi caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol fel a amlinellir yn Atodiadau 1 a 2 Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol. Mae Atodiad 2 y rheoliadau yn cynnwys y canlynol:

   - Gwaith lliniaru llifogydd / gwaith arfordirol
   - Argaeau neu osodiadau i ddal dŵr
   - Trosglwyddo adnoddau dŵr
   - Gweithfeydd trin dŵr gwastraff
   - Tynnu dŵr daear

4. **A fydd Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, o ystyried ei effaith debygol ar safleoedd Ewropeaidd, yn gofyn am asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd?**

   Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ar ffurf ddrafft, wedi'i gynnal o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020). Ar gyfer mesurau penodol, nid oedd yr asesiad drafft yn gallu casglu na fyddai effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd oherwydd natur lefel uchel/drosfwaol y mesurau hynny. Yn dilyn cyfraith achos ddiweddar (People Over Wind & Sweetman v. Coillte, 2018), ni ellir dibynnu ar fesurau lliniaru ac osgoi i gasglu na fyddai cynllun neu brosiect yn cael effaith sylweddol, ac nid yw hyn yn newid ein dull o gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y trydydd cylch

o'i gymharu â'r dull a ddilynwyd gennym ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Gynlluniau Rheoli Basn Afon yr ail gylch. Felly, ar sail ragofalus, ystyriwyd naw o'r 93 o fesurau hyd at y cam asesu priodol, a chafodd weddill y mesurau eu tynnu o'r sgrinio ar sail y ffaith na fyddent yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Mae'r asesiad priodol yn amlinellu dulliau lliniaru ac osgoi ar lefel uchel y bydd yn rhaid eu cymhwyso wrth gyflawni'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y sgrinio wrth gynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar yr haen is, gan ohirio ystyriaeth fanwl nes cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y prosiect.

Casglodd drafft yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd na fyddai'r cynlluniau'n cael effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd. Dylid hefyd ystyried casgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng nghyd-destun prif nod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, sef gwella'r amgylchedd dŵr, gan gynnwys ardaloedd gwarchodedig (safleoedd Ewropeaidd). Nod Cynlluniau Rheoli Basn Afon yw helpu i gyflawni amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd sy'n ddibynnol ar ddŵr, ac felly byddent er budd iddynt.

**5. A yw Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru yr ail gylch, yn amodol ar Reoliad 9(1)?**

Lle bo cynllun yn addasiad bach i gynllun sydd eisoes yn bodoli, a lle nad yw unrhyw addasiadau'n debygol o achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol, gan ystyried y meini prawf a bennir yn Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, a safbwyntiau cyrff ymgynghori (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw), nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Er mwyn penderfynu a yw adolygiad y trydydd cylch hwn o Gynlluniau Rheoli Basn Afon yn addasiad bach, rydym wedi ystyried y modd y gweithredwyd yr ail gylch o ganlyniad i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a gynhaliwyd, a gwnaethom hefyd gymharu mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch â rhai'r trydydd cylch er mwyn nodi unrhyw addasiadau. Ceir manylion y gymhariaeth hon yn Atodiad 1, a lle ceir addasiadau amlwg, rydym wedi ystyried a ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd yn Atodiad 2.

Dylid nodi bod y mesurau i gyd yn rhai cenedlaethol sy'n gymwys ledled Cymru, gan gynnwys y rheiny a nodir â 'WW' neu 'DE' ar ddechrau'r cyfeirnod. Mae'r rhain yn fesurau sydd wedi'u dwyn ymlaen o Gynlluniau Rheoli Basn Afon y cylch cyntaf a'r ail gylch ac sydd wedi cadw eu cyfeirnod am resymau adrodd. Mae'r trydydd cylch hwn yn pennu mesurau ar raddfa genedlaethol yn unig, ac mae'n ddibynnol ar waith gweithredu lleol drwy raglenni, cynlluniau a Datganiadau Ardal a nodir.

# 4. Penderfynu pa mor sylweddol mae effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod

## 4.1. Nodweddion y Cynllun Rheoli Basn Afon

Yn ystod cyfnod Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch, bu amrywiaeth o newidiadau deddfwriaethol sydd wedi llywio'r rhaglenni o fesurau. Mae rhai o'r newidiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Newidiadau posibl ar ôl Brexit
- Newidiadau yn y fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer amaethyddiaeth
- Cemegion newydd a bennir yn y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol, fel y’i troswyd i Gyfarwyddiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Safonau a Dosbarthiadau) (Cymru a Lloegr) 2015 (y cyfeirir atynt fel y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol o hyn ymlaen)
- Diweddariad i gydymffurfiaeth ar gyfer ardaloedd gwarchodedig
- Yr argyfwng yn yr hinsawdd
- Thema sy'n dod i'r amlwg ar ddefnydd plastigion a'u gwaredu

Ystyrir y rhain yn fanylach yn y drafft o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru ei hun, ac maent wedi arwain at ddiwygio rhai o'r mesurau a restrir yn Deunydd atodol

**Atodiad 1**.

Mae Tabl 1 yn ystyried pa mor sylweddol y mae effeithiau Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru, yn ei gyfanrwydd, yn debygol o fod, ac mewn perthynas â chylchoedd ac asesiadau blaenorol. Mae'n rhoi crynodeb o'r gymhariaeth fanwl o fesurau, a, lle mae addasiadau'n amlwg, asesiad o'u heffeithiau sylweddol (a roddir yn yr atodiadau).

Mae Deunydd atodol

**Atodiad 1** yn cymharu mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch â mesurau'r trydydd cylch ac yn nodi unrhyw addasiadau. Ystyrir yr addasiadau hyn ymhellach yn Atodiad 2, er mwyn penderfynu a ydynt yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol ar lefel strategol nad ydynt eisoes wedi'u nodi a'u harchwilio mewn asesiadau blaenorol. Mae'r mesurau'n gymwys drwy Gymru gyfan, ond cânt

eu hystyried mewn dogfennau sgrinio ar wahân ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Hafren.

**Tabl 1**. **Pa mor sylweddol y mae effeithiau'r Cynllun Rheoli Basn Afon, yn ei gyfanrwydd, ar yr amgylchedd yn debygol o fod.**

| **Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** | **Crynodeb o effeithiau amgylcheddol sylweddol (negyddol a chadarnhaol)** |
|---|---|
| **1(a) I ba raddau y mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn pennu'r fframwaith ar gyfer prosiectau a gweithgareddau eraill, naill ai mewn perthynas â'u lleoliad, eu natur, eu maint a'u hamodau gweithredu, neu o safbwynt dyrannu adnoddau?** | Mae hwn yn gynllun strategol ar gyfer cyflawni'r nod o reoli dŵr yn gynaliadwy ac o ddiogelu a gwella dyfroedd wyneb, dyfroedd daear a dyfroedd arfordirol o fewn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Roedd yr Asesiadau Amgylcheddol Strategol a gynhaliwyd yn 2009 a 2015 wedi disgrifio effeithiau cadarnhaol ar y cyfan, ac, o safbwynt yr effeithiau negyddol posibl ar dreftadaeth ddiwylliannol, dangosodd yr adolygiad a gynhaliwyd (Natural Resources Wales, 2020) fod mesurau lliniaru digonol yn eu lle i'w hosgoi neu eu lleihau.<br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid y fframwaith a bennir gan Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru** |
| **1(b) I ba raddau y mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn dylanwadu ar gynlluniau eraill, gan gynnwys y rheiny mewn hierarchaeth?** | Gallai Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch arwain at ddatblygu prosiectau ar lawr gwlad drwy gynlluniau, rhaglenni neu strategaethau cysylltiedig eraill, e.e. y Rhaglen Adfer Mwyngloddiau Metel.<br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid dylanwad Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru.** |
| **1(c) Beth yw perthnasedd y Cynllun Rheoli Basn Afon i'r broses o integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, ac i'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn benodol?** | Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon bellach yn rhan o gyd-destun deddfwriaethol ehangach yng Nghymru, gan osod dyletswyddau statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill) o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae diogelu dŵr, a'i ddefnyddio a'i reoli'n gynaliadwy er budd pobl ac ecosystemau, yn parhau i fod yn ganolog i Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru. |

| **Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** | **Crynodeb o effeithiau amgylcheddol sylweddol (negyddol a chadarnhaol)** |
|---|---|
| | **Ni fydd yr agwedd hon ar y cynllun yn cael ei newid gan yr adolygiad, ond mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015 wedi atgyfnerthu'r angen i ymgorffori datblygu cynaliadwy ymhellach.** |
| **1(d) Pa broblemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Cynllun Rheoli Basn Afon?** | Mae Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru yn nodi materion rheoli dŵr sylweddol ac yn argymell mesurau i fynd i'r afael â nhw. Mae materion rheoli dŵr sylweddol y trydydd cylch wedi aros yr un peth â rhai'r ail gylch. Ymgynghorwyd ar y rhain yn 2019, a chafodd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad ar faterion rheoli dŵr sylweddol ei gyhoeddi ar 1 Gorffennaf 2020. **Nid oedd y materion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch wedi newid ers yr ail gylch. O ganlyniad, ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid yr agwedd hon ar y cynllun yn sylweddol.** |
| **1(e) A yw'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn berthnasol i'r gwaith o ymgorffori deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd ar yr amgylchedd?** | Mae Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn gweithredu Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac mae Atodlen 3 y rheoliadau hyn yn rhestru 11 o gyfarwyddebau pellach gan yr Undeb Ewropeaidd sydd hefyd yn offerynnau ar gyfer diogelu dŵr, ac felly mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn berthnasol i'r gwaith o ymgorffori deddfwriaeth Ewropeaidd ar yr amgylchedd. **Er bod y Cynllun Rheoli Basn Afon yn ystyried nifer o reoliadau, ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid diben gwreiddiol Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru yn hyn o beth.** |

| Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod | Crynodeb o effeithiau amgylcheddol sylweddol (negyddol a chadarnhaol) |
|---|---|
| **2(a) Tebygolrwydd, hyd, amlder a childroadwyedd yr effeithiau** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |
| **2(b) Natur gronnus yr effeithiau** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |
| **2(c) Natur drawsffiniol yr effeithiau** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |
| **2(d) Y risgiau i iechyd dynol neu'r amgylchedd (e.e. yn sgil damweiniau)** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |
| **2(e) Maint a rhychwant gofodol yr effeithiau (yr ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth y byddent yn debygol o gael effaith arnynt)** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |
| **2(f) Gwerth yr ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio, a'r graddau y mae'n agored i** | Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |

| Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod | Crynodeb o effeithiau amgylcheddol sylweddol (negyddol a chadarnhaol) |
|---|---|
| **niwed, gan ystyried ac yn sgil y canlynol:**<br><br>**i) Nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol**<br><br>**ii) Mynd uwchlaw safonau ansawdd amgylcheddol neu werthoedd terfyn; neu**<br><br>**iii) Ddefnydd tir dwys; a** | |
| **2(g) Yr effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws gwarchodedig cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol cydnabyddedig.** | Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch, cafodd naw allan o 93 o fesurau eu hasesu'n briodol (dylid nodi bod un o'r rhain yn benodol i'r rhan o afon Dyfrdwy sydd wedi'i lleoli o fewn Lloegr). Gan ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesurau hyn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yng ngham yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n ymwneud ag asesu effaith sylweddol debygol, ac felly aeth y mesurau hyn ymlaen i gael eu hasesu'n briodol. Casglodd yr asesiad priodol na fyddai |

| **Meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** | **Crynodeb o effeithiau amgylcheddol sylweddol (negyddol a chadarnhaol)** |
| --- | --- |
| | effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesurau hyn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Bydd y diwygiad arfaethedig o Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn addasiad bach ac ni fydd yn newid yr effeithiau amgylcheddol posibl a bennir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn sylweddol. |

## 4.2. Casgliad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu na fydd Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch yn creu unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu ychwanegol. Cefnogir y penderfyniad hwn gan y canlynol:

- Adolygiad o'r modd y gweithredwyd Cynlluniau Rheoli Basn Afon yr ail gylch mewn perthynas â'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol (Tîm Asesu Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru, Mawrth 2020).
- Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017, sy'n tanategu'r Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru presennol ac sydd â'r nod o atal dirywiad i statws cyrff dŵr a'i wella. Mae'r effeithiau sylweddol a allai ddigwydd wedi'u hasesu, a cheir manylion ohonynt, yn Adroddiad Amgylcheddol 2015.
- Casgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft.
- O'r 93 o fesurau a geir yn nrafft Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch, mae 36 ohonynt wedi'u haddasu ac mae'r 57 sy'n weddill yn rhai a gadwyd o'r ail gylch. Mae'r mesurau a gadwyd eisoes wedi bod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac mae'r canlyniadau wedi'u hamlinellu yn Adroddiad Amgylcheddol 2015. O'r mesurau a addaswyd:
    - Mae 20 wedi'u haralleirio er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, ond nid yw hyn, wrth ei ystyried, wedi newid ystyr y mesurau, ac felly rydym wedi dod i'r casgliad na fydd yr addasiad yn arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol ar lefel strategol nad ydynt eisoes wedi'u nodi a'u harchwilio mewn asesiadau blaenorol.

    - Mae 16 wedi'u diwygio ers yr ail gylch o ganlyniad i welliant parhaus ac addasu, gan gynnwys y bwriad i ddatblygu rhaglenni hirdymor, e.e. adfer mawndiroedd. Rydym wedi dangos, trwy ystyriaeth bellach yn Atodiad 2, fod golwg eglur o fesurau'r ail gylch i rai'r trydydd cylch, ac ystyriwn na fydd yr addasiad yn arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol ar lefel strategol nad ydynt eisoes wedi'u nodi a'u harchwilio mewn asesiadau blaenorol.

Bydd y diwygiad yn datblygu ymhellach waith cyflenwi mesurau dyheadol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'n partneriaid. Nid yw natur a lleoliad y prosiectau a fyddai'n cael eu hybu gan y mesurau hyn wedi'u rhagnodi'n llwyr nac yn uniongyrchol gan y Cynllun Rheoli Basn Afon. Bydd yr effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithgarwch o'r fath yn rhai eilaidd ac yn unol â'r rhai a ddisgrifir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015.

Sefydlodd Adroddiad Amgylcheddol 2015 fesurau lliniaru a oedd yn ddibynnol, i raddau helaeth, ar gyflawni drwy drefniadau rheoliadol a fodolai eisoes. Er enghraifft, caiff prosiectau Cyfoeth Naturiol Cymru eu cyflawni gan ddilyn nodiadau cyfarwyddyd gweithredol (OGN), fel OGN86 ar sgrinio prosiectau mewnol am asesiadau amgylcheddol, ac OGN200 ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd prosiectau. O ganlyniad, mae camau lliniaru ar gyfer effeithiau andwyol posibl eisoes wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Basn Afon. Ni ddisgwylir effeithiau andwyol ychwanegol o ganlyniad i'r diwygiad, ond pe byddai effeithiau andwyol yn dod i'r amlwg, gellir eu nodi a mynd i'r afael â nhw mewn modd amserol gan ddefnyddio mecanweithiau rheoliadol sydd eisoes yn bodoli.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu nad yw'r diwygiad i Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru yn ei gwneud yn ofynnol cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol, a nodir datganiad o'n rhesymau dros y penderfyniad yn y ddogfen hon. Caiff safbwyntiau'r cyrff ymgynghori (Tîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, a Cadw) eu ceisio ar effeithiau sylweddol tebygol o dan Adran 9 (2) o’r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Caiff y penderfyniad hwn hefyd ei gyhoeddi ochr yn ochr â drafft y Cynllun Rheoli Basn Afon ym mis Rhagfyr 2020.

# 5. Cyfeiriadau


Directive 2001/42/EC of the European Parliament and of the Council of 27 June 2001 on the assessment of the effects of certain plans and programmes on the environment, 2001. OJ L 197, 21/07/2001: pp. 30-37.

Directive 2008/105/EC of the European Parliament and of the Council of 16 December 2008 on environmental quality standards in the field of water policy, amending and subsequently repealing Council Directives 82/176/EEC, 83/513/EEC, 84/156/EEC, 84/491/EEC, 2008. OJ L 348, 24/12/2008: pp. 84–97.

Environment (Wales) Act, 2016. [Online] Available at: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted [Accessed 10 09 2020].

Environment Agency Wales, 2009. *Environmental Report of the Western Wales RBMP,* Cardiff: EAW.

Natural Resources Wales, 2015. *Environmental Report of the Western Wales RBMP,* Tŷ Cambria, Cardiff: NRW.

Natural Resources Wales, 2020. *Draft Habitats Regulations Assessment of the third cycle Western Wales and Dee River Basin Management Plans,* Tŷ Cambria, Cardiff: NRW (Environmental Assessment Team).

Natural Resources Wales, 2020. *Review of the Implementationof the Second Cycle River Basin Management Plans in relation to the Strategic Environmental Assessments,* Tŷ Cambria, Cardiff: NRW (Environmental Assessment Team).

People Over Wind & Sweetman v. Coillte, 2018. *Case 323/17.* s.l.:s.n.

The Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004, 2004. [Online]
Available at: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2004/1633/contents/made
[Accessed 10 09 2020].
The Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017, 2017. [Online]
Available at: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/407/contents/made
[Accessed 10 09 2020].
Well-being of Future Generations (Wales) Act, 2015. [Online]
Available at: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted
[Accessed 10 09 2020].
Welsh Government, 2020. *Draft River basin planning guidance,* s.l.: WG.

## Deunydd atodol

### *Atodiad 1. Cymhariaeth o fesurau Cynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch â mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch ar ffurf ddrafft*

Atodiad 1.1. Tabl o fesurau i 'reoli llygredd o garthion a dŵr gwastraff'.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM14 | Gweithio mewn modd strategol â gweinyddiaethau'r DU i rannu arfer gorau ar atal a datrys camgysylltiadau | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM17 | Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith rheoliadol sy'n hybu datrysiadau cynaliadwy ac arloesol i reoli gwastraff dŵr | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM18 | Cwmnïau dŵr yn datblygu a chyflenwi opsiynau ar gyfer rheoli dalgylchoedd sy'n gwella ansawdd dŵr ac yn darparu gwasanaethau ecosystemau ychwanegol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM75 | Datblygu a chyflenwi dull sydd â mwy o ffocws ar reoli carthffosiaeth a draenio | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0212 | Hyrwyddo defnydd systemau draenio cynaliadwy (SDCau) a darparu canllawiau ar gyfer integreiddio gwaith chynllunio dŵr a datblygiadau | I'w gadw | Nac ydy |
| NEW10 | | Bydd y diwydiant dŵr yn cyflenwi rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ollyngiadau carthion (yn rhai parhaus ac ysbeidiol) er mwyn cefnogi gwaith cyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig yng Nghynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25) | **Ydy** |
| NEW25 | | Bydd cwmnïau dŵr yn darparu cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff | **Ydy** |

Atodiad 1.2. Tabl o fesurau i 'reoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth'.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM19 | Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo ac ymgorffori egwyddor dylunio trefol sy'n ystyriol o ddŵr mewn polisi cynllunio a rheoliadau adeiladu datganoledig | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM20 | Datblygu cyrff cymeradwyo SDCau i ddarparu cyngor cyson ar gyfer gweithgareddau cynllunio a chynnal a chadw cynlluniau | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM21 | Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ynghylch llygredd trefol gwasgaredig | I'w gadw | Nac ydy |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM22 | Hybu gwaith ymgorffori SDCau (systemau draenio cynaliadwy) mewn datblygiadau newydd, a rhai sydd eisoes yn bodoli, mewn ardaloedd trefol a gwledig er mwyn dwyn buddion amgylcheddol, ansawdd dŵr, cymdeithasol ac o ran perygl llifogydd | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM23 | Dylanwadu ar awdurdodau cynllunio i'w wneud yn ofynnol defnyddio SDCau ac i gyfrannu at ymgorffori technoleg SDCau briodol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM24 | Cyflwyno camau blaenoriaeth a amlinellir yng Nghynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM25 | Gweithio mewn partneriaeth er mwyn ymchwilio i gamgysylltiadau, gan gynnwys targedu mannau sy'n wynebu problemau Cynnwys gwaith allgymorth i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus a chymunedol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM26 | Defnyddio Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo Electronig (ePIMS) Llywodraeth y DU, sy'n system asedau eiddo, i nodi pa ystadau a depos diwydiannol sy'n eiddo i'r cyhoedd sydd o fewn cyrff dŵr sy'n methu, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatrys problemau fel y gall y safleoedd hyn gyflawni'r arfer gorau | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM27 | Asesu effeithiau amgylcheddol a lleihau halogiad gan safleoedd diwydiannol a gwastraff hanesyddol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM51 | Parhau i wella ymwybyddiaeth o ganllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys canllawiau "Coedwigoedd a dŵr") a chanllawiau arfer (gan gynnwys "Rheoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i asid"), a'u gweithredu, ar draws y sector coedwigaeth | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM79 | Byddwn yn cynnal adolygiad o berchenogaeth gyfredol dros ddraeniau, a deddfwriaeth gysylltiedig, gan roi pwyslais penodol ar ddŵr wyneb ac asedau amddifad, ac ar gamgysylltiadau draenio | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM82 | Rheoli gollyngiadau cemegion i'r amgylchedd dŵr yn y tarddiad, h.y. rheoli eu cynhyrchu a'u defnydd, drwy ddeddfwriaeth Ewropeaidd, a thrwy effaith uniongyrchol a rhoi rheoliadau ar waith (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ymadael â'r UE), gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig iddynt, Reoliadau Gorfodi Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) 2006, Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, a Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012 | Rheoli gollyngiadau cemegion i'r amgylchedd dŵr yn y tarddiad, h.y. rheoli eu cynhyrchu a'u defnydd, drwy weithredu deddfwriaeth ddomestig a chytundebau rhyngwladol | **Ydy. Wedi'i addasu i dynnu cyfeiriadau at gyfarwyddebau'r UE. Nid oes angen ailasesu** |
| S70280 | Gwella dealltwriaeth o darddiadau llygredd gwasgaredig a datrysiadau iddo drwy gynnal ymchwiliadau lleol (e.e. Nentydd Clir) | I'w gadw | Nac ydy |
| S70421 | Defnyddio data digwyddiadau llygredd i dargedu cyngor a gweithgareddau atal llygredd | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0010 | Codi ymwybyddiaeth o fuddion a llwyddiannau rheoli dŵr wyneb ffo drwy SDCau (systemau draenio cynaliadwy) a chynaeafu dŵr glaw er mwyn lliniaru llifogydd a llygredd | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0146 | Gweithredu cod ymarfer SDCau (systemau draenio cynaliadwy) Cydymffurfio â chyngor a gyhoeddwyd ar systemau draenio cynaliadwy ar gyfer gweithredwyr | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0216 | Cynghori busnesau bach a chanolig ar atal llygredd | I'w gadw | Nac ydy |

Atodiad 1.3. Tabl o fesurau ar gyfer rheoli 'addasiadau ffisegol'.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM2 | Cyflawni ein dyletswyddau statudol i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid, brithyllod, dŵr croyw a llyswennod | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM3 | Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith pysgodfeydd yng Nghymru fel a amlinellir yn Agenda Newid Pysgodfeydd | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM4 | Cyflwyno'r rhaglen pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru er mwyn sicrhau gwelliannau i gynefinoedd pysgod a'u gallu i fudo | I'w gadw | Ddim yn addasiad, ond mae angen ei asesu o ganlyniad i'r ffaith bod gofyn asesu'r mesur hwn yn briodol yn nrafft yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. |
| CYM5 | Mewn cyrff dŵr a ddynodwyd yn rhai a addaswyd yn sylweddol oherwydd gwaith diogelu'r arfordir a rhag llifogydd, bydd gwaith lliniaru ar gyfer gweithgareddau ac asedau ym mherchnogaeth CNC yn cael ei adolygu a'i gyflawni ar sail blaenoriaeth. | I'w gadw | Nac ydy |
| NEW02 | | Rhaglen i gyflwyno opsiynau adfer afonydd priodol mewn nifer o ddalgylchoedd afon â blaenoriaeth uchel ac o fudd uchel, a nodwyd o dan y Rhaglen Adfer Afonydd Cymru integredig | **Ydy** |
| NEW09 | | Cyflwyno rhaglen adfer afonydd Natura 2000 (N2K) ochr yn ochr â gwaith datblygu dull strategol ar gyfer cyllido, gan gynnwys cyflawni prosiect LIFE afon Dyfrdwy | **Ydy** |
| NEW13 | CYM1 Parhau i roi'r canllawiau ynni dŵr ar waith, gan gynnwys llunio canllaw cynllunio a lleoli ar gyfer datblygwyr sy'n ymwneud â chynlluniau ynni dŵr | Cyflwyno rhaglen o archwiliadau o gynlluniau ynni dŵr i sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag amodau trwyddedau tynnu a chronni dŵr, a chymryd camau gorfodi priodol lle bônt yn methu â gwneud hynny | **Ydy** |
| NEW14 | CYM1 Parhau i roi'r canllawiau ynni dŵr ar waith, gan gynnwys llunio canllaw cynllunio a lleoli ar gyfer datblygwyr sy'n ymwneud â chynlluniau ynni dŵr | Cymhwyso ein canllaw a safonau cynllunio amgylcheddol cyfredol i drwyddedau tynnu a chronni dŵr newydd ar gyfer cynlluniau ynni dŵr, a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o effaith amgylcheddol cynlluniau ynni dŵr â chwymp mawr ac ar raddfa fach sy'n dibynnu ar lif yr afon, boed honno'n unigol neu'n gronnus | **Ydy** |
| NEW15 | CYM6 Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cyfleoedd i ddefnyddio mesurau rheoli llifogydd naturiol lle bo'n briodol, a dylanwadu ar eraill i wneud hynny | Bydd pob cynllun lliniaru llifogydd newydd yn integreiddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn cyflenwi cynlluniau cynaliadwy sy'n cynnal statws neu botensial ecolegol, a'i wella lle bo hynny'n bosibl. Integreiddio opsiynau rheoli llifogydd naturiol wrth reoli perygl llifogydd, lle bo hynny'n briodol | **Ydy** |
| NEW16 | CYM 10 Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr drwy raglenni gwaith a chynlluniau rheoli llifogydd sydd eisoes yn bodoli | Caiff gwelliannau, a gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i systemau perygl llifogydd, eu gwneud mewn modd ystyrlon a chynaliadwy, a byddant yn ceisio cyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol | **Ydy** |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| NEW17 | CYM9 Hybu gwaith adlinio a reolir, a chreu cynefinoedd rhynglanwol, drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd | Cefnogi Cymru i gael arfordir sy'n gynaliadwy ac yn wydn yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Darparu ar gyfer addasiad arfordirol yn unol â pholisi’r Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer rheoli amddiffynfeydd arfordirol. Ei gwneud yn bosibl i'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd gyflwyno cynefinoedd rhynglanwol cydadferol lle bo hynny'n ofynnol. Integreiddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur wrth gyflenwi cynlluniau amddiffynfeydd arfordirol, lle bo'n briodol | **Ydy** |
| NEW19 | | Bydd cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effeithiau asedau cwmnïau dŵr ar lwybrau pysgod mewn achosion lle na chyflawnir amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn unol ag amcanion Cynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25). Bydd hyn yn mynd i'r afael ag adeileddau sy'n gweithredu fel rhwystrau i fudo pysgod ac sy'n gysylltiedig ag agweddau eraill ar weithrediadau cwmnïau dŵr, fel prif garthffosydd a phrif bibellau sydd wedi'u lleoli mewn sianeli afonydd, a siliau ac adeileddau concrit cysylltiedig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ansicrwydd ynghylch perchenogaeth asedau, y bydd angen ei ddatrys. Gellir rhoi datrysiadau ar waith yn aml drwy weithio mewn partneriaeth â sectorau eraill | **Ydy** |
| NEW38 | | Cynlluniau gwella cynefinoedd, fel rheoli gwaddodion, er mwyn lleihau effaith addasiadau ffisegol (cronfeydd dŵr y cwmnïau dŵr) | **Ydy** |

Atodiad 1.4. Tabl o fesurau ar gyfer rheoli ‘newidiadau i lif naturiol dŵr a'i lefelau’.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM28 | Llywodraeth Cymru i adolygu system trwyddedu tynnu dŵr er mwyn llywio polisi'r dyfodol ar reoli adnoddau dŵr | Bydd Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru, yn parhau i symud y swyddogaeth trwyddedu adnoddau dŵr i mewn i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol | **Ydy. Gwaith datblygu polisi/rheoliadau; nid yw ailasesu'n ofynnol** |
| CYM30 | Awdurdodiadau newydd (trwyddedu tyniadau dŵr a oedd wedi'u heithrio'n hanesyddol) | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM31 | Ymchwiliadau i asesu effeithiau amgylcheddol croniadau dŵr a mesurau lliniaru posibl | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM32 | Blaenoriaethu datrysiadau i fynd i'r afael â methiannau yn sgil gwaith tynnu dŵr | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM33 | Ceisio ffyrdd o leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd dŵr yn unol â'r Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM71 | Diwygio Glastir er mwyn rhoi blaenoriaeth, a gwella'r cymorth a roddir, i waith rheoli cadwraeth gwlyptiroedd/mawndiroedd a gwaith rheoli lefelau dŵr Natura 2000 | I'w gadw | Nac ydy |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM73 | Cynorthwyo â gwaith cyflwyno Rhaglen Adfer Mawndiroedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru | I'w gadw | Ddim yn addasiad, ond mae angen ei asesu o ganlyniad i'r ffaith bod gofyn asesu'r mesur hwn yn briodol yn nrafft yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. |
| N2K0016 | Targedu mesurau rheoli tir drwy'r rhaglen amaeth-amgylcheddol Glastir a chytundebau Adran 15 er mwyn lliniaru llygredd gwasgaredig gan amaethyddiaeth, a lleihau effaith draenio, er mwyn gwella bioamrywiaeth a chyflawni statws cadwraeth ffafriol | I'w gadw | Nac ydy |
| NEW27 | | Mae Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi cefnogi astudiaeth o ofynion sectorau lluosog (ARUP). Bydd hyn yn helpu i nodi lle gellir gweithredu mesurau arbed dŵr. Bydd yr astudiaeth yn nodi ble gellir gwneud y mwyaf o wahaniaeth o safbwynt yr effaith ar yr amgylchedd a/neu sicrwydd cyflenwadau. Bydd canlyniadau'r astudiaeth, yn eu tro, yn llywio gwaith posibl yn y dyfodol ar ddulliau addasu i helpu ffermwyr ac ati i gael cyflenwadau mwy gwydn yn eu lle. Byddai hyn yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd dŵr, ond, yn ehangach, byddai hefyd yn cynnwys, er enghraifft, creu storfeydd dŵr, a defnyddio ffynonellau gwahanol | **Ydy Ymchwiliad ac astudiaeth nodi, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW28 | | Mae Waterwise wedi nodi angen i wneud labelu dŵr ar gyfarpar dŵr sy'n gysylltiedig â'r safonau isaf yn orfodol. Gweithio ar y cyd gyda Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon | **Ydy. Datblygu canllawiau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW29 | | Gweithio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru / cwmnïau dŵr / CCGC / Cyfoeth Naturiol Cymru / Waterwise i nodi bylchau mewn tystiolaeth effeithlonrwydd dŵr, a blaenoriaethu a chydlynu gwaith ymchwil ac ymgysylltu, a mentrau yng Nghymru | **Ydy Ffyrdd o weithio, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |

Atodiad 1.5. Tabl o fesurau ar gyfer 'rheoli rhywogaethau estron goresgynnol'.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM34 | Parhau i wella gwybodaeth am ddosbarthiadau rhywogaethau a gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus o rywogaethau estron goresgynnol newydd a sefydledig, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau fel systemau cofnodi ar-lein ac ar ffonau clyfar | I'w gadw | Nac ydy |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM35 | Cefnogi gweithredu rheoliad yr UE ar rywogaethau estron goresgynnol a Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 i wella cydlyniant mesurau a chreu rheolaethau cryfach ar lwybrau mynediad y rhywogaethau mwyaf niweidiol, yn enwedig y rheiny sy'n cyrraedd cyrff dŵr aberol ac arfordirol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM36 | Gweithredu strategaeth ddiweddaredig Prydain Fawr ar rywogaethau goresgynnol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM56 | Gweithio gyda phartneriaid a chefnogi datblygiad datrysiadau newydd ac arloesol, fel AquaWales ac Aquainvade, a arweinir gan Brifysgol Abertawe i ymchwilio i ddyframaethu ac i ddulliau o ganfod rhywogaethau estron goresgynnol dŵr croyw yn gynnar a'u gwaredu, a rhaglen arloesedd Menter Ymchwil Busnesau Bach | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM59 | Gwahardd gwerthu'r pum planhigyn dyfrol estron goresgynnol canlynol yng Nghymru, yn unol â'r rheoliad a weithredwyd dros Loegr gan DEFRA o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad: dail-ceiniog arnofiol, briallu'r dŵr, corchwyn Seland Newydd, pluen parot a rhedynen y dŵr | Gwahardd gwerthu'r ddau blanhigyn dyfrol estron goresgynnol canlynol yng Nghymru, yn unol â'r rheoliad a weithredwyd dros Loegr gan DEFRA o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad: corchwyn Seland Newydd (Crassula helmsii) a rhedynen y dŵr (Azolla filiculoides) | **Ydy. Wedi'i addasu i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed â'r mesur hwn – dwy rywogaeth estron oresgynnol i'w cadw** |
| CYM60 | Datblygu a hyrwyddo mabwysiadu codau ymddygiad a mentrau bioddiogelwch, a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar draws cynefinoedd a rhywogaethau morol, daearol a dŵr croyw Natura 2000 | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM61 | Sicrhau y caiff y risgiau a berir i gynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 gan rywogaethau estron goresgynnol eu rheoli drwy ymgorffori arfer gorau bioddiogelwch o mewn trefniadau rheoliadol priodol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM62 | Cefnogi gwaith ymchwil i ddulliau rheoli a gwaredu effeithiol ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol (morol, daearol a dŵr croyw) sy'n cael effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000 | I'w gadw | Nac ydy |
| NEW26 | | Ymchwilio i lwybrau trosglwyddo posibl ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol trwy weithgareddau sy'n ymwneud â'r cyflenwad dŵr, a nodi mesurau lliniaru posibl | **Ydy. Ymchwiliad ac astudiaeth nodi, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW 37 | | Ymchwilio i effaith rhywogaethau estron goresgynnol ar dir cwmnïau dŵr ac ar drosglwyddiadau dŵr rhwng dalgylchoedd | **Ydy. Ymchwiliad ac astudiaeth nodi, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |

Atodiad 1.6. Tabl o fesurau ar gyfer ‘rheoli llygredd o ardaloedd gwledig’.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM37 | Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ynghylch llygredd gwasgaredig gwledig | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM38 | Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy er mwyn cyflawni amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017, ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM41 | Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhaglen o fesurau a flaenoriaethir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM42 | Parhau i wella ymwybyddiaeth o ganllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys canllawiau “Coedwigoedd a dŵr”) a chanllawiau arfer, a’u gweithredu, ar draws y sector coedwigaeth | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM44 | Llywodraeth Cymru yn targedu cymhellion rheoli coetiroedd Glastir er mwyn cyflenwi gwelliannau i'r amgylchedd dŵr | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM46 | Llywodraeth Cymru yn gweithredu Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 (fel y'i diwygiwyd) fel y bo'n briodol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM54 | Cyflwyno digwyddiadau ymwybyddiaeth dŵr i staff a chontractwyr sy'n gweithio ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (ac ym maes coedwigaeth breifat) i gwmpasu rheoli dŵr ar safleoedd gweithredol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM66 | Adolygu'r gwaith o weithredu gofynion rheoli statudol a chyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da er mwyn cryfhau'r sbardunau ar gyfer arfer amaethyddol gorau – sicrhau cydraddoldeb o safbwynt monitro arferion sy'n achosi llygredd gwasgaredig (o fewn dalgylchoedd safleoedd Natura 2000), a'u canlyniadau, drwy ofynion rheoli statudol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM67 | Cryfhau cysylltiadau rhwng opsiynau amaeth-amgylcheddol ac amcanion Natura 2000 ar ffermydd sydd o fewn dalgylchoedd sy'n cael effaith ar safleoedd Natura 2000 ar hyn o bryd | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM68 | Adolygu a chryfhau effeithiolrwydd deddfwriaeth a pholisi perthnasol (dadansoddi'r bwlch), a'r gwaith o’u gorfodi, er mwyn gwella eu gallu i ymdrin â llygredd dŵr gwasgaredig | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM69 | Cynnal ymchwiliad i nodi lle gallai safleoedd Natura 2000 sydd i lawr yr afon o weithgareddau coedwigaeth ddwyn budd o welliannau (h.y. gwelliannau i lystyfiant torlannol, adalinio draeniau coedwigoedd a datgysylltu draeniau ymyl ffordd o gyrsiau dŵr) er mwyn bodloni'r Safon Coedwigaeth y DU gyfredol, ac er mwyn lleihau unrhyw berygl o lygredd gwasgaredig ac asideiddio | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM74 | Alinio dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth trwyddedu a chynllunio i gefnogi dull cyfannol o ymdrin â dyddodi nitrogen yng Nghymru, gan integreiddio'r effaith ar yr aer a'r effaith ar ansawdd dŵr, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i gyflenwi dull sy'n seiliedig ar reoli adnoddau naturiol | I'w gadw | Nac ydy |
| CYM83 | Byddwn yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cynghori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda thirfeddianwyr i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o lygredd gwasgaredig a sut y gallant helpu i'w osgoi drwy reoli tir yn well | I'w gadw | Nac ydy |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| DrWPA0488 | Monitro tarddleoedd llygredd o fewn Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed, ymchwilio iddynt, a'u datrys | I'w gadw | Nac ydy |
| NEW12 | | Bydd rheoliadau newydd yng Nghymru ar gyfer amaethyddiaeth yn cynnwys y canlynol: gwaith cynllunio rheoli maethynnau; taenu gwrteithiau mewn modd cynaliadwy sy'n gysylltiedig ag anghenion y cnydau; diogelu dŵr rhag llygredd mewn perthynas â phryd, ble a sut caiff gwrteithiau eu taenu; safonau storio tail | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW30 | | Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r sectorau i ddatblygu a chyflwyno rhaglen o fesurau gwirfoddol i hybu gwelliannau i ddatrys llygredd gwasgaredig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW31 | | Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu, ymgorffori a chyflwyno rhaglen o gyngor ac arweiniad i hybu gwelliannau i ddatrys llygredd gwasgaredig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW32 | | Bydd Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr yn datblygu a chyflwyno rhaglen reoleiddio integredig i hybu gwelliannau er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW33 | | Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio â chyllid arloesedd i ddatblygu a chyflwyno rhaglen arloesedd i hybu gwelliannau i ddatrys llygredd gwasgaredig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW34 | | Bydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill yn ymgorffori gwiriadau a chydbwysau a chyflwyno rhaglen o gymhellion i hybu gwelliannau i ddatrys llygredd gwasgaredig er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| NEW35 | | Mae Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, a arweinir gan y sector, yn cydweithio i ddatblygu cyfres o fesurau a dulliau a fydd yn helpu i gyflawni'r nod ar y cyd o gael gwared ar lygredd amaethyddol, wrth gynnal sector amaethyddol cynaliadwy a chadarn sy'n gallu ffynnu yng Nghymru | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau, felly ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |

Atodiad 1.7. Tabl o fesurau ar gyfer 'rheoli llygredd o fwyngloddiau'.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| CYM49 | Rhaglen i ddarparu triniaeth briodol ar safleoedd nifer fach o fwyngloddiau â blaenoriaeth uchel ac o fudd uchel, a nodwyd o dan y Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru | Cyflwyno rhaglen atal ac adfer ar gyfer dŵr o gloddfeydd metel (dim glo) fel a nodwyd o dan y Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru | Ddim yn addasiad, ond mae angen ei asesu o ganlyniad i'r ffaith bod gofyn asesu'r mesur hwn yn briodol yn nrafft yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. |
| DE0014 | Rhaglen atal ac adfer yr Awdurdod Glo ar gyfer dŵr mwyngloddiau | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0031 | Parhau i ymchwilio i effaith dŵr mwyngloddiau a datblygu cynlluniau adfer yn unol â'r Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru | I'w gadw | Nac ydy |
| WW0141 | Rhoi'r arfer gorau o safbwynt rheolaethau ac adfer ar waith ar safleoedd pyllau glo segur. Rhaglen â blaenoriaeth (wedi'i chyflwyno'n raddol) a ariennir gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd | I'w gadw | Nac ydy |

Atodiad 1.8. Tabl o fesurau ar gyfer rheoli pob mater rheoli dŵr sylweddol.

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| NEW03 | | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i bartneriaid yn cyflenwi gwelliannau i ansawdd dŵr, i'r amgylchedd ehangach ac i bobl o fewn y 'dalgylchoedd cyfle' | **Ydy** |
| NEW05 | | Mae Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed sydd mewn perygl (a phob corff dŵr i fyny'r afon) wedi'u dwyn ymlaen fel 23 (21 ynghyd â'r ddwy wreiddiol) o Barthau Diogelu a fydd yn destun ymchwiliadau Cynllun Rheoli Asedau a ariennir i asesu tarddleoedd methiant y dŵr craidd ac i nodi datrysiadau dalgylch dichonadwy. Lle canfyddir bod datrysiadau dalgylch yn bosibl, ac y gellir sicrhau cytundeb gan randdeiliaid, caiff mesurau gwella eu cyflwyno drwy gydol Cynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) | **Ydy** |
| NEW06 | | Cynllunnir amrediad o fesurau i wneud pob ymdrech i gyflawni'r safon ficrobaidd yng nghig pysgod cregyn. Cynllunnir nifer o gamau o dan PR19 ac yn lleol a fydd yn arwain at welliant yn ansawdd pysgod cregyn. Mae cynlluniau hefyd ar waith i ddarparu gwybodaeth i gefnogi dadansoddiad costau a manteision, a dealltwriaeth well o'r gwelliannau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni amcanion Ardaloedd Gwarchodedig Dyfroedd Pysgod Cregyn | **Ydy** |
| NEW08 | | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu ei gynlluniau rheoli craidd ar gyfer safleoedd Natura 2000 er mwyn sicrhau bod yr amcanion cadwraeth yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf | **Ydy. Ymgymerir â hwn yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cynefinoedd. Ymgymerir â gwaith sgrinio Asesiadau Amgylcheddol Strategol a sgrinio Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer pob adolygiad o gynllun.** |
| NEW11 | | Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr drwy fforymau Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig Fforwm Rheoli Dŵr Cymru | **Ydy** |

| Cyfeirnod y mesur | Mesur cenedlaethol o'r ail gylch | Mesur cenedlaethol o'r trydydd cylch | A yw'r addasiad yn gofyn am asesu effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? |
|---|---|---|---|
| NEW20 | CYM 63 Datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi gwaith rheoli sbwriel môr a'r strategaeth sbwriel môr<br>CYM 64 Adolygiad Cymru gyfan o effeithiau gweithgareddau heb eu rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar adnoddau pysgodfeydd morol. Dylai hyn ystyried graddfa gweithgareddau, effeithiau echdynnu a gweithgareddau cysylltiedig (e.e. mynediad) ar nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd, ac i ba raddau y gellir adfer y nodweddion hynny<br>CYM 70 Cynnal ymchwiliad peilot i nodi tarddleoedd llygredd gwasgaredig o fewn safle Natura 2000 morol ac argymell camau wedi'u targedu i fynd i'r afael â materion y llygredd gwasgaredig | Cymryd camau o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig blynyddol sy'n gysylltiedig â Fframweithiau Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018–2023. Mae'r camau hyn yn cynnwys adolygu effeithiau gweithgareddau heb eu rheoleiddio, gwella mesurau bioddiogelwch ar gyfer rhywogaethau goresgynnol morol, a gwella cyflwr nodweddion sydd o fewn safleoedd Natura 2000 morol | **Ydy. Mae hwn yn gasgliad o fesurau o Gynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch a gafodd eu hasesu yn flaenorol** |
| NEW21 | | Cymryd camau o fewn Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd 2020–2025 | **Ydy. Datblygu polisi/rheoliadau trawsbynciol. Ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW22 | | Sicrhau bod mesurau Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn cyflwyno buddion lluosog, atebion sy'n seiliedig ar natur, a buddion o safbwynt bioamrywiaeth er mwyn cyflawni "Natur Hanfodol", sy'n amlinellu meysydd blaenoriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ein gwaith ar fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau hyd at 2022, o dan chwe thema, er mwyn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru ac amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru | **Ydy, ond mae'n ofyniad cyfreithiol trawsbynciol. Ni cheir llwybrau ar gyfer effeithiau amgylcheddol** |
| NEW23 | | Bydd cwmnïau dŵr yn cyflwyno rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ymdrin â chemegion er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig yng Nghynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25). | **Ydy** |
| NEW24 | | Gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad o ardaloedd sensitif Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1994 (caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn 2021) | **Ydy** |

## *Atodiad 2. Ystyriaeth o addasiadau a pha mor sylweddol y mae eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod.*

Atodiad 2.1. Tabl o fesurau a addaswyd ar gyfer ‘rheoli llygredd o fwyngloddiau’, a pha mor sylweddol y mae eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod.

| **Cyfeirnod y mesur** | **Disgrifiad o'r mesur a addaswyd** | **Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** |
|---|---|---|
| NEW10 | Bydd y diwydiant dŵr yn cyflenwi rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ollyngiadau carthion (yn rhai parhaus ac ysbeidiol) er mwyn cefnogi gwaith cyflawni amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig yng Nghynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25) | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Yn 2015, geiriad y mesur hwn oedd “lleihau llygredd o ollyngiadau carthion, gan gynnwys ymchwilio i rwystrau mewn carthffosydd, a mynd i'r afael â nhw, a sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy ar waith er mwyn lleihau'r swm o ddŵr wyneb sy'n draenio i garthffosydd”. Er bod graddfa'r mesur wedi'i haddasu, mae natur strategol Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn golygu bod yr asesiadau o buro dŵr a thrin gwastraff o'r ail gylch yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW25 | Bydd cwmnïau dŵr yn cyflwyno Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff | Llywir y cynlluniau hyn gan ‘Strategaeth Ddŵr i Gymru’ (2015) gan Lywodraeth Cymru, Rhaglen Ddraenio Water UK ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain a methodoleg PR19 derfynol Ofwat, oll er mwyn cyflwyno gwelliannau hirdymor i waith cynllunio draenio a dŵr gwastraff Cymru. Mae'r cynlluniau newydd hyn wrthi'n cael eu datblygu, a byddant yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.<br><br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid y fframwaith a bennir gan Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru** |

Atodiad 2.2. Tabl o fesurau a addaswyd ar gyfer rheoli ‘addasiadau ffisegol’ a'u heffeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd.

| **Cyfeirnod y mesur** | **Disgrifiad o'r mesur a addaswyd** | **Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** |
|---|---|---|
| CYM 4 | Cyflwyno'r rhaglen pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru er mwyn sicrhau gwelliannau i gynefinoedd pysgod a'u gallu i fudo | Mae'r mesur hwn wedi'i gadw o'r ail gylch ac felly nid yw'n addasiad, ond yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesurau yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br><br>**Ni fydd y mesur hwn yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| NEW02 | Rhaglen i gyflwyno opsiynau adfer afonydd priodol mewn nifer o ddalgylchoedd afon â blaenoriaeth uchel ac o fudd uchel, a nodwyd o dan y Rhaglen Adfer Afonydd Cymru integredig | Y nod yw dilyn dull sy'n seiliedig ar natur i adfer cynefinoedd afon nodweddiadol er budd hydromorffoleg, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, pysgodfeydd a rheoli llifogydd. Gellir diffinio ffocws y gwaith hwn fel a ganlyn: ailsefydlu prosesau ffisegol naturiol (e.e. amrywiad mewn llif a symudiad gwaddodion), nodweddion (e.e. maint gwaddodion a siâp afonydd), a chynefinoedd ffisegol system afonol (gan gynnwys yr ardaloedd sydd o dan ddŵr, glannau ac ardaloedd o orlifdir).<br><br>Er y cyflwynir hwn fel mesur newydd, cafodd y dulliau o fynd i'r afael ag addasiadau ffisegol mewn cyrff dŵr eu cynnig a'u hasesu yng Nghynllun Rheoli Basn Afon y cylch cyntaf a'r ail gylch, y cawsant eu targedu at gyrff dŵr penodol. Ceir cysylltiadau agos â mesurau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i bysgodfeydd, gwaith cyflenwi gwelliannau sy'n gysylltiedig â phrosiectau perygl llifogydd, a gwaith cyflwyno mesurau sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol.<br><br>Golyga'r addasiad i'r mesur hwn ddilyn dull mwy strategol, ond sydd â mwy o ffocws, o fynd i'r afael â phwysau gan addasiadau ffisegol, sef y rheswm mwyaf sylweddol nad yw cyrff dŵr yn cyflawni statws da yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn helpu i flaenoriaethu adnoddau a'u canolbwyntio ar ddalgylchoedd penodol er mwyn dwyn y budd gorau posibl yn hytrach nag argymell datrysiadau neu ddulliau gwahanol.<br><br>Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesur yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW09 | Cyflwyno rhaglen o waith adfer afonydd Natura 2000 ochr yn ochr â gwaith datblygu dull strategol ar gyfer cyllido, gan gynnwys cyflawni prosiect LIFE afon Dyfrdwy | Fel NEW02.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW13 | Cyflwyno rhaglen o archwiliadau o gynlluniau ynni dŵr i sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag amodau trwyddedau tynnu a chronni dŵr, a chymryd camau gorfodi priodol lle bônt yn methu â gwneud hynny | Gwnaeth mesurau ddatblygu o Gynllun Rheoli Basn Afon yr ail gylch, a hybodd gwaith datblygu arweiniad, a chafodd yr effeithiau hyn eu hasesu yn Adroddiad Amgylcheddol 2015. Ar gyfer y trydydd cylch, mae'r mesur yn adlewyrchu defnydd yr arweiniad a ddatblygwyd, ac archwiliad.<br><br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid y fframwaith a bennir gan Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru** |

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| NEW14 | Cymhwyso ein canllaw a safonau cynllunio amgylcheddol cyfredol i drwyddedau tynnu a chronni dŵr newydd ar gyfer cynlluniau ynni dŵr, a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o effaith amgylcheddol cynlluniau ynni dŵr â chwymp mawr ac ar raddfa fach sy'n dibynnu ar lif yr afon, boed honno'n unigol neu'n gronnus | Fel NEW13.<br><br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid y fframwaith a bennir gan Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru** |
| NEW15 | Bydd pob cynllun lliniaru llifogydd newydd yn integreiddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn cyflenwi cynlluniau cynaliadwy sy'n cynnal statws neu botensial ecolegol, a'i wella lle bo hynny'n bosibl. Integreiddio opsiynau rheoli llifogydd naturiol wrth reoli perygl llifogydd, lle bo hynny'n briodol. | Ceir golwg eglur oddi wrth fesurau cenedlaethol yr ail gylch. Mae geiriad y mesurau wedi'i ddiwygio i adlewyrchu cyflwyniad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Genedlaethol i Gymru ar ffurf ddrafft (i'w mabwysiadu yn 2020).<br><br>Cyflenwir a llywir gwaith rheoli perygl llifogydd gan y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Genedlaethol i Gymru ar ffurf ddrafft, y Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd Cymru. Mae pob un o'r rhain yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch yn hybu gwaith cyflenwi a fydd yn dwyn budd i statws cyrff dŵr. Mae'r gwaith asesu a lliniaru sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli perygl llifogydd yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW16 | Caiff gwelliannau, a gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i systemau perygl llifogydd, eu gwneud mewn modd ystyrlon a chynaliadwy, a byddant yn ceisio cyflwyno buddion amgylcheddol a chymdeithasol | Fel NEW15.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW17 | Cefnogi Cymru i gael arfordir sy'n gynaliadwy ac yn wydn yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Darparu ar gyfer addasiad arfordirol yn unol â pholisi'r Cynllun Rheoli Traethlin ar gyfer | Fel NEW15.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| | rheoli amddiffynfeydd arfordirol. Ei gwneud yn bosibl i'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd gyflwyno cynefinoedd rhynglanwol cydadferol lle bo hynny'n ofynnol. Integreiddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur wrth gyflenwi cynlluniau amddiffynfeydd arfordirol, lle bo'n briodol | |
| NEW19 | Bydd cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effeithiau asedau cwmnïau dŵr ar lwybrau pysgod mewn achosion lle na chyflawnir amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn unol ag amcanion Cynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25). Bydd hyn yn mynd i'r afael ag adeileddau sy'n gweithredu fel rhwystrau i fudo pysgod ac sy'n gysylltiedig ag agweddau eraill ar weithrediadau cwmnïau dŵr, fel prif garthffosydd a phrif bibellau sydd wedi'u lleoli mewn sianeli afonydd, a siliau ac adeileddau concrit. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ansicrwydd ynghylch perchenogaeth asedau, y bydd angen ei ddatrys. Gellir rhoi datrysiadau ar waith yn aml drwy weithio mewn partneriaeth â sectorau eraill | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Roedd CYM2, 3 a 4 yn fesurau yng Nghynllun Rheoli Basn Afon y cylch cyntaf a'r ail gylch, ac roeddent wedi'u hanelu at welliannau i lwybrau pysgod a chynefinoedd. Canolbwyntiodd yr asesiad a gynhaliwyd yn Adroddiad Amgylcheddol 2015 ar y gweithgareddau yn hytrach na'r sefydliad a oedd yn cyflwyno'r mesur. Cedwir CYM2, 3 a 4 yn y trydydd cylch.<br><br>Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesur yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW38 | Cynlluniau gwella cynefinoedd, fel rheoli gwaddodion, er mwyn lleihau effaith addasiadau | Fel New19<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| | ffisegol (cronfeydd dŵr y cwmnïau dŵr) | |

Atodiad 2.3. Tabl o fesurau a addaswyd ar gyfer rheoli pob mater rheoli dŵr sylweddol a'u heffeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd.

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| CYM73 | Cynorthwyo â gwaith cyflwyno Rhaglen Adfer Mawndiroedd Genedlaethol Llywodraeth Cymru | Mae'r mesur hwn wedi'i gadw o'r ail gylch ac felly nid yw'n addasiad, ond yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesur yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br><br>**Ni fydd y mesur hwn yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| CYM49 | Rhaglen i ddarparu triniaeth briodol ar safleoedd nifer fach o fwyngloddiau â blaenoriaeth uchel ac o fudd uchel, a nodwyd o dan y Strategaeth Mwynglawdd Metel dros Gymru | Mae'r mesur hwn wedi'i gadw o'r ail gylch ac felly nid yw'n addasiad, ond yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesur yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd.<br><br>**Ni fydd y mesur hwn yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW03 | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i bartneriaid yn cyflenwi gwelliannau i ansawdd dŵr, i'r amgylchedd ehangach ac i bobl o fewn y 'dalgylchoedd cyfle' | Yng Nghymru, ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon y trydydd cylch, rydym yn anelu at gyflawni dull sy'n seiliedig ar leoedd o flaenoriaethu dalgylchoedd sydd hefyd yn darparu canlyniadau ar gyfer Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Bydd y dalgylchoedd cyfle yn sicrhau bod ymdrechion staff yn cwmpasu holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn cefnogi partneriaid i ddarparu datrysiadau ar gyfer rheoli dalgylchoedd mewn modd integredig. Disgwylir y bydd partneriaid sy'n gweithredu o fewn y deg dalgylch cyfle hefyd yn gallu cyfrannu tuag at welliannau o fewn yr ardaloedd hyn. Bydd y mesur hwn yn cynorthwyo â'r gwaith o flaenoriaethu mesurau ar draws y Cynllun Rheoli Basn Afon, e.e. adfer afonydd, cynlluniau adfer pysgodfeydd, ac adfer mwyngloddiau metel.<br>**Ni fydd y diwygiad arfaethedig yn newid y fframwaith a bennir gan Gynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru** |

| **Cyfeirnod y mesur** | **Disgrifiad o'r mesur a addaswyd** | **Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod** |
|---|---|---|
| NEW05 | Mae Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed sydd mewn perygl (a phob corff dŵr i fyny'r afon) wedi'u dwyn ymlaen fel 23 (21 ynghyd â'r ddwy wreiddiol) o Barthau Diogelu a fydd yn destun ymchwiliadau Cynllun Rheoli Asedau a ariennir i asesu tarddleoedd methiant y dŵr craidd ac i nodi datrysiadau dalgylch dichonadwy.Lle canfyddir bod datrysiadau dalgylch yn bosibl, ac y gellir sicrhau cytundeb gan randdeiliaid, caiff mesurau gwella eu cyflwyno drwy gydol Cynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Diffinnir Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac mae'n ofynnol ein bod yn cynnwys mesurau yn y rhaglen o fesurau. Roedd Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yr ail gylch yn cynnwys ymchwiliadau i liniaru'r risg o ddirywiad yn ansawdd dŵr yfed. Er bod graddfa'r mesur hwn wedi'i haddasu, mae natur strategol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu bod asesiadau'r meysydd puro dŵr a thrin gwastraff o'r ail gylch yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW06 | Cynllunnir amrediad o fesurau i wneud pob ymdrech i gyflawni'r safon ficrobaidd yng nghig pysgod cregyn. Cynllunnir nifer o gamau o dan PR19 ac yn lleol a fydd yn arwain at welliant yn ansawdd pysgod cregyn. Mae cynlluniau hefyd ar waith i ddarparu gwybodaeth i gefnogi dadansoddiad costau a manteision, a dealltwriaeth well o'r gwelliannau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni amcanion Ardaloedd Gwarchodedig Dyfroedd Pysgod Cregyn | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Roedd Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yr ail gylch yn cynnwys ymchwiliadau i ddeall yr effaith ar ddyfroedd pysgod cregyn a gwelliannau i asedau sy'n cael effaith ar ddyfroedd pysgod cregyn. Er bod graddfa'r mesur hwn wedi'i haddasu, mae natur strategol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu bod asesiadau'r meysydd puro dŵr a thrin gwastraff o'r ail gylch yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>Yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, roedd y mesur hwn yn destun asesiad priodol, ac felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd o dan Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac, yn benodol, a fydd y mesur yn cael effaith ar ardaloedd sydd â statws gwarchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol (safleoedd Ewropeaidd). O ystyried lefel uchel Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru y trydydd cylch, nid oeddem yn gallu casglu na fyddai'r mesur hwn yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ewropeaidd. Mae cyfraith achos ddiweddar yn ein hatal rhag ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly aeth y mesur hwn ymlaen i gael ei asesu'n briodol. Mae'r asesiad priodol yn nodi y bodlonir y meini prawf ar gyfer ymdrin â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, ac rydym yn hyderus y gellir rhoi'r mesur ar waith heb achosi effeithiau andwyol ar integredd safleoedd. Mae hefyd yn amlinellu cyfres o fesurau a dulliau a fydd, ynghyd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â manylder priodol, yn sicrhau y caiff camau lliniaru eu gweithredu yn y cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar lefel is, er mwyn osgoi a lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Casglodd yr asesiad priodol na fyddai effaith andwyol ar integredd safleoedd Ewropeaidd, ac, yn ein barn ni, wrth roi'r camau lliniaru a argymhellir ar waith, a chynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, ni fydd y mesur hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. |

| Cyfeirnod y mesur | Disgrifiad o'r mesur a addaswyd | Disgrifiad o ba mor sylweddol y mae'r effeithiau ar yr amgylchedd yn debygol o fod |
|---|---|---|
| | | **Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW23 | Bydd cwmnïau dŵr yn cyflwyno rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ymdrin â chemegion er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 ac amcanion ardaloedd gwarchodedig yng Nghynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25) | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Mae'r mesur hwn yn ymdrin â chyflwyno rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau, gan ganolbwyntio ar gemegion a llygryddion sy'n dod i'r amlwg (fel y'u diffinnir gan y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol a'i diwygiadau). Roedd Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yr ail gylch yn cynnwys ymchwiliadau a gwelliannau o'r fath, ond bu addasiadau i'r rhestr o gemegion a llygryddion sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, er bod graddfa'r mesur hwn a'r llygryddion a ystyrir ynddo wedi'u haddasu, mae natur strategol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu bod asesiadau'r ail gylch yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |
| NEW24 | Gweithredu'r adolygiad o ardaloedd sensitif Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994 (caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn 2021) | Llywir y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd ei chyflwyno yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Mae'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn llywio Cynllun Rheoli Asedau'r Cwmnïau Dŵr, ac mae hwn yn esblygu dros amser drwy gyfnodau'r Cynllun Rheoli Asedau a chylchoedd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Cafodd y mesurau manwl hyn ar gyfer y cwmnïau dŵr, a amlinellir yn y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol, eu cyhoeddi ar gyfer yr ail gylch, ond mae'r mesurau a geir yn y ddogfen ddrafft ar gyfer y trydydd cylch ar lefel genedlaethol.<br><br>Roedd Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yr ail gylch yn cynnwys ymchwiliadau a gwelliannau i gyflawni statws ecolegol da neu safonau ffosfforws da. Er bod graddfa'r mesur hwn wedi'i haddasu, mae natur strategol yr asesiad amgylcheddol strategol yn golygu bod asesiadau'r ail gylch yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>**Bydd y diwygiad arfaethedig yn addasiad bach, ac felly ni fydd yn achosi newid sylweddol i'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a amlinellir yn Adroddiad Amgylcheddol 2015** |